**Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru**
**Datganiad i'r Wasg**
**I'w ryddhau ar unwaith**
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

## Mae angen cyllido Colegau ôl-16 Cymru yn iawn

Mae gan undeb addysg fwyaf Cymru bryderon bod y rhaglen uno colegau ôl-16 yng Nghymru dros y degawd diwethaf wedi cael effaith andwyol ar ddysgwyr a staff, gyda'r ddarpariaeth ddysgu yn amrywio o un ardal i'r llall. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru yn deall bod yr uno hyn wedi arwain i'r rhai a gyflogir yn y sector Addysg Bellach yng Nghymru gael amodau sydd yn gyffredinol yn llai ffafriol na'r *Llyfr Coch* a Chyflog ac Amodau Gwasanaeth Athrawon Ysgol.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae'r sector ôl-16 wedi cael ei daro'n galed gan effaith llymder yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n drist clywed profiadau aelodau sy'n awgrymu nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi."

"Mae blynyddoedd o danariannu wedi gweld y sector ôl-16 yng Nghymru cael ei ailstrwythuro. Byddwn yn ceisio barn ein haelodau ac yn gweithio gyda'r undebau llafur eraill i negydu cyflog ac amodau gwell i'n haelodau."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

**Cynnig 12. Colegau ôl-16 yng Nghymru**

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi:

1. Bod pob coleg yng Nghymru yn rhannu'r un mecanwaith bargeinio cyflog cenedlaethol.

2. Roedd y Cytundeb Cenedlaethol y cytunwyd arno yn 2014 yn cynnwys pob coleg ac eithrio un coleg chweched dosbarth yng Nghymru.

3. Bod un coleg yng Nghymru yn mwynhau amodau gwasanaeth cenedlaethol Coleg y Chweched Dosbarth (Lloegr), fel y nodir yn y *Llyfr Coch*.

4. Nad yw athrawon a gyflogir ym mhob Coleg Addysg Bellach (AB) arall yn mwynhau amodau o'r fath ac mae ganddynt, yn gyffredinol, amodau sydd yn llai ffafriol na'r *Llyfr Coch* a chyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ysgol.

5. Fel ysgolion, mae'r sector ôl-16 yn parhau i gael ei danariannu gyda nifer o golegau yn uno dros y degawd diwethaf.

Mae hyn wedi arwain at:

i. Amharodrwydd gan golegau i ddarparu codiadau cyflog mewn termau real yn unol ag athrawon ysgol.

ii. Golli pynciau sy'n recriwtio niferoedd isel.

iii. Gynnydd yn y defnydd o gytundebau dros dro.

iv. Gynnydd yn nifer y staff a gyflogir fel hyfforddwyr i gyflwyno cyrsiau.

v. Gynnydd yn y nifer o athrawon a darlithwyr a gyflogir ar gytundebau fesul awr.

vi. Pwysau baich gwaith cynyddol i staff mewn Colegau AB yng Nghymru.

vii. Staff â chyfrifoldebau ychwanegol ddim yn cael digolledu'n briodol.

Cred Cynhadledd Cymru fod y rhaglen uno colegau wedi cael effaith andwyol ar ddysgwyr a'r staff sy'n gweithio ac yn mynychu colegau ôl-16 yng Nghymru, gyda'r ddarpariaeth ddysgu yn amrywio o un ardal i'r llall.

Felly, mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

a. Ymgyrchu i athrawon a darlithwyr mewn colegau ôl-16 gael cyflog sy'n gyfartal i'w cydweithwyr mewn ysgolion yng Nghymru.

b. Ymgynghori ag aelodau ynglŷn â'u barn ar y Cytundeb Cenedlaethol.

c. Geisio ar unwaith i drafod system lwfansau gyda Cholegau Cymru i ddigolledu staff â chyfrifoldebau addysgu a dysgu ychwanegol a dyrannu amser CPA gwarchodedig.

d. Ymgynghori a datblygu pecyn cymorth i athrawon a chynrychiolwyr ar gyfer mynd i'r afael â baich gwaith mewn sefydliadau ôl-16 yng Nghymru.

e. Weithio gydag undebau llafur eraill i dynnu sylw at effaith toriadau i addysg ôl-16 fel rhan o ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru.

**Cysylltiadau'r wasg:**

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

***Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.***

***e-bost: stuart.williams@neu.org.uk***

**Nodyn i olygyddion:**

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.